2 Rhagfyr 2016

Annwyl Syr / Madam

**Ymgynghoriad ar y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**

Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i egwyddorion cyffredinol y **Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru)**. Mae rhagor o fanylion am y Bil a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig ar gael ar wefan y Cynulliad yn:

http://www.senedd.cynulliad.cymru/mgIssueHistoryHome.aspx?IId=15874

Gellir gweld cylch gorchwyl yr ymchwiliad yn **Atodiad 1.**

**Gwahoddiad i gyfrannu at yr ymchwiliad**

Mae'r Pwyllgor yn croesawu tystiolaeth gan y rhai sydd â buddiant yn y pwnc hwn.

Os ydych yn ymateb ar ran sefydliad, dylech roi disgrifiad byr o rôl eich sefydliad. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg ac yn Saesneg, a gofynnwn i sefydliadau sydd â pholisïau/cynlluniau iaith Gymraeg ddarparu ymatebion dwyieithog, yn unol â'u polisïau gwybodaeth gyhoeddus. Bydd y Pwyllgor yn ystyried yr ymatebion i'r ymchwiliad ac yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ystod tymor y gwanwyn.

Os ydych am gyflwyno tystiolaeth, anfonwch gopi electronig ohoni i SeneddCyllid@Cynulliad.Cymru

Fel arall, ysgrifennwch at:

Clerc y Pwyllgor

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

Y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Bae Caerdydd, CF99 1NA.

Dylai unrhyw sylwadau ddod i law erbyn **11 Ionawr 2017**. Mae'n bosibl na fydd modd ystyried ymatebion sy'n dod i law ar ôl y dyddiad hwn. Mae Canllawiau ar gael i dystion sy'n rhoi tystiolaeth i bwyllgorau.

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar pe gallech anfon copi o'r llythyr hwn ymlaen at unrhyw unigolyn neu sefydliad a hoffai gyfrannu at yr ymchwiliad. Mae copi o'r llythyr hwn wedi'i roi ar wefan y Cynulliad ynghyd â gwahoddiad agored i gyflwyno sylwadau.

**Datgelu gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth ar gael yma. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion hyn yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (Bethan Davies – 0300 200 6372).

Yn gywir,



**Simon Thomas AC**

Cadeirydd

**Atodiad 1 – Cylch Gorchwyl**

1. Yr egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth;
2. Unrhyw rwystrau posibl rhag rhoi'r darpariaethau hyn ar waith, ac a yw'r Bil yn eu hystyried.
3. A oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil.
4. Goblygiadau ariannol y Bil (fel y nodir ym Mhennod 6 o'r Memorandwm Esboniadol);
5. Priodoldeb y pwerau yn y Bil i Weinidogion Cymru wneud is-ddeddfwriaeth (fel y nodir ym Mhennod 5 o'r Memorandwm Esboniadol).
6. A yw egwyddorion Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu polisi a deddfwriaeth treth datganoledig wedi cael eu dilyn, sef:
    - bod yn deg i fusnesau ac unigolion sy'n eu talu;
    - bod yn syml, gyda rheolau clir sy'n ceisio lleihau costau cydymffurfio a gweinyddu;
    - cefnogi twf a swyddi, a fydd, yn ei dro, yn helpu i fynd i'r afael â thlodi; a
    - darparu sefydlogrwydd a sicrwydd i drethdalwyr.
7. Y diffiniad o 'warediad trethadwy' a 'deunyddiau cymwys';
8. Y darpariaethau o ran sut y bydd y dreth yn cael ei chyfrifo, gan gynnwys pwysau trethadwy deunyddiau a gostyngiad yng nghyswllt cynnwys dŵr;
9. Gweithredu cyfraddau treth, ac a yw'r rhain yn cadw'r hyblygrwydd i ymdrin â newidiadau dilynol ar lefel Cymru a'r DU;
10. Yr eithriadau arfaethedig;
11. Y gostyngiadau arfaethedig;
12. Cynnwys gwarediadau o wastraff heb awdurdod mewn mannau ar wahân i safleoedd tirlenwi awdurdodedig;
13. Arolygu safleoedd at ddibenion canfod atebolrwydd person o ran y Bil Treth Gwarediadau Tirlenwi, a rhannu gwybodaeth rhwng Awdurdod Cyllid Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac awdurdodau lleol;
14. Y dyletswyddau ar drethdalwyr i wneud taliadau ac i dalu cosbau, a llog o dan rai amgylchiadau;

15. Sut y mae cwmnïau, partneriaethau a chyrff anghorfforedig yn cael eu trin o ran y darpariaethau a'r cyfrifoldeb dros gydymffurfio;

16. Sefydlu Cynllun Cymunedau Tirlenwi fel cynllun grant yn hytrach na chredyd treth a'i ddatblygu y tu allan i'r Bil.